# Gwbor Gwneuthurwyr Newydd
# Potclays a Gŵyl Rhyngwladol Serameg Festival 2023

Dechreuodd Gwobr Gwneuthurwyr Newydd Potclays yn 2011. Mae'n gyfle i grochenwyr ac artistiaid yn y DU sy'n gweithio gyda chlai ac sydd wedi graddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf, arddangos eu gwaith yng Ngŵyl Serameg Ryngwladol 2023.

Gofynnir i'r pedwar sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ddod â detholiad o'u gwaith i gymryd rhan yn arddangosfa'r Gwneuthurwyr Newydd yn ystod y penwythnos. Bydd pawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael tocyn penwythnos a lle i aros ar gyfer yr Ŵyl Serameg Ryngwladol 2023. Bydd gan yr holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol broffil ar wefan ICF ac rydym yn argymell bod ganddyn nhw wefan neu flog i gysylltu hefyd. Bydd y pedwar sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan yr ICF o ran rhoi cyhoeddusrwydd ar draws cyfryngau cymdeithasol ICF yn yr amser tan yr Ŵyl nesaf o leiaf.

Dewisir enillydd Gwbor Gwneuthurwyr Newydd Potclays a'r ICF yn seiliedig ar eu gwaith y maent yn ei arddangos yn ystod penwythnos yr ICF - bydd y cyhoedd hefyd yn cyfrannu tuag at y pleidleisio.

Bydd yr enillydd yn derbyn taleb o £200 i'w wario gyda Potclays LTD, cyhoeddir cyfweliad ar wefan Potclays, rhoddir tystysgrif wedi'i fframio, ynghyd â chefnogaeth barhaus ar gyfryngau cymdeithasol a digidol e.e. datganiadau i'r wasg ar gyfer eu newyddion a'u digwyddiadau yn cael eu cyhoeddi yn eu cylchlythyrau e-bost misol. Yn ogystal, bydd yr ICF yn darparu llety a thocyn i Ŵyl 2025.

**Ymgeiswyr:**
Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed ac wedi'u lleoli yn y DU. Rhaid eu bod wedi graddio o brifysgol yn y DU neu sefydliad Addysg Uwch yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr a fydd yn graddio erbyn mis Gorffennaf 2023.

Mae'r dewis yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
1. Safon a chwmpas gwaith yr ymgeisydd.
2. Y gwaith, yr arddangosfa a gweithgareddau eraill y mae'r ymgeisydd wedi bod yn rhan ohonynt ers gorffen addysg.

**Y Broses Ceisiadau:**
Darparwch y canlynol os gwelwch yn dda:
1. Manylion bywgraffyddol a datganiad am eich gwaith a'ch syniadau o tua 250 o eiriau.
2. 5 delwedd o safon uchel (300dpi) o'r gwaith yr hoffech gyflwyno.
3. Teitl, cyfrwng, dyddiad a maint y gwaith a gyflwynir.
4. Cynhwyswch unrhyw ddiolchiadau am y delweddau a doleni i gyfryngau cymdeithasol .

Dyddiad cau y ceisiadau yw 30 Ebrill 2023.
Danfonwch eich cais drwy ebost gyda'r teitl Gwbor Gwneuthurwyr Newydd Potclays i
Cat Gardiner
Ebost: administrator@icfwales.co.uk

**Y Broses Ddethol:**
Ar ôl derbyn pob cais am y gystadleuaeth, bydd panel dewis yr ICF yn dewis y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol. Bydd y panel dethol yn cynnwys Cynrychiolwyr Potclays a Cyfarwyddwyr yr ICF.

**Llinnell Amser:**
Mawrth 2023: Ceisiadau Gwbor Gwneuthurwyr Newydd Potclays ar agor
30 Ebrill 2023: Dyddiad cau ceisiadau
13 Mai 2023: Dewiswyd pedwar Gwneuthurwr i roi cyflwyniadau ac arddangos yn yr Ŵyl.
2 Gorffennaf 2023: Enillydd y wobr wedi'i dewis yn ystod yr Ŵyl (30 Mehefin - 2 Gorffennaf 2023)

.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government